

DYDDIAD	5 Chwefror 2018
TEITL	Adran 53, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 Cais i gofrestru Llwybr Cyhoeddus sy'n rhedeg o flaen Mawddach Crescent i Bont Abermaw, yng Nghymuned Arthog, ar y Map Swyddogol.
DIBEN	Ystyried a ddylai'r Awdurdod lunio Gorchymyn Diwygio
ARGYMHELLIAD	Y dylid GWRTHOD y cais ar y sail fod perchnogion y tir wedi gweithredu'n ddigonol i ddangos nad oes ganddynt fwriad i neilltuo hawl tramwy cyhoeddus.
AWDUR	Pennaeth yr Adran Amgylchedd

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyfeiria'r adroddiad hwn at gais a gyflwynwyd i'r Cyngor dan adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981") i gofrestru llwybr cyhoeddus yng Nghymuned Arthog ar Fap Swyddogol Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
- 1.2 Gwneir y cais ar y sail fod y cyhoedd wedi cerdded ar hyd y llwybr hwn yn ddirwystr ac yn gyson fel petai ganddynt yr hawl (hynny yw, heb ganiatâd y tirlfeddiannwr) dros gyfnod o fwy nag ugain mlynedd.

2.0 CEFNDIR

- 2.1 Ym mis Awst 2014, derbyniwyd cais gyda thystiolaeth gefnogol gan Mr Huw Roberts dan Ddeddf 1981 i gofrestru Llwybr Cyhoeddus sy'n rhedeg o flaen Mawddach Crescent i Bont Abermaw, yng nghymuned Arthog ar y Map Swyddogol.
- 2.2 Cedwir copïau o'r cais, ffurflenni tystiolaeth defnyddwyr a datganiadau a gyflwynwyd gan ddefnyddwyr a pherchnogion tir ar ffeil gan y Cyngor. Mae'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais yn bennaf yn ymwneud â defnydd cyhoeddus honedig o'r llwybr troed.
- 2.3 Dengys y llwybr troed a hawlir, fel y dengys ar gynllun y cais, rhwng pwyntiau A a B ar y cynllun yn Atodiad 1.
- 2.4 Wrth ymchwilio i'r dystiolaeth, daeth i'r amlwg fod nifer o'r defnyddwyr sy'n cefnogi'r cais hefyd yn hawlio hawl tramwy cyhoeddus rhwng pwyntiau A - B - C.
- 2.5 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol sydd ar gael ag os, ar sail tebygolrwydd, yr honnir yn rhesymol fod yr hawliau llwybr cyhoeddus

yn bodoli, bydd gofyn i'r Awdurdod wneud Gorchymyn Diwygio Map Swydddogol i gofrestru'r llwybr ar y Map Swydddogol.

3.0 CEFNDIR CYFREITHIOL

3.1 Gellir creu priffordd os yw tirlfeddiannwr i neilltuo'r hawl i'r cyhoedd i groesi ei dir ynghyd â'r cyhoedd yn derbyn y llwybr. Gellir mynegi'r fath beth drwy ychydig o gamau gweithredu clir; neu gellir ei ragdybio, naill ai oherwydd bod y cyhoedd wedi ei ddefnyddio'n ddiddadl am gyfnod fel pe bai ganddynt yr hawl i wneud hynny neu os oes tystiolaeth ddogfennol, o unrhyw adeg yn y gorffennol, yn cofnodi'r statws a gafodd ei briodoli ar y pryd i'r llwybr dan sylw.

3.2 Mae Adran 53 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981") yn gosod dyletswydd ar Gyngor Gwynedd fel "awdurdod arolygu" i adolygu'r Map a'r Datganiad Swydddogol yn barhaus.

3.3 Mae Adran 53(3)(b) Deddf 1981 yn nodi y dylid llunio Gorchymyn i addasu'r Map a'r Datganiad Swydddogol pan gellir dangos bod y fath gyfnod o amser wedi mynd heibio pan fo'r cyhoedd wedi defnyddio llwybr yn ystod y cyfnod a bod hynny'n arwain at ragdybiaeth bod y llwybr wedi'i neilltuo yn llwybr cyhoeddus.

3.4 Mae Adran 53(3)(c)(i) Deddf 1981 yn nodi y dylid llunio Gorchymyn ar ôl darganfod tystiolaeth, o'i ystyried gyda phob tystiolaeth berthnasol arall, sy'n dangos "*bod hawl tramwy na ddangosir ar y map a'r datganiad yn bodoli neu yr honnir yn rhesymol ei fod yn bodoli dros dir yn yr ardal mae'r map yn cyfeirio ato...*".

3.5 Os mai tystiolaeth defnyddiwr yw'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais, gweithredir Adran 31(1) Deddf Priffyrdd 1980:-

"Pan fydd ffordd...wedi cael ei mwynhau gan y cyhoedd fel petai hawl yn bodoli a heb ymyrraeth am gyfnod llawn o ugain mlynedd, pennir bod y ffordd honno wedi'i neilltuo fel priffordd oni bai bod yna dystiolaeth ddigonol nad oedd bwriad i'w neilltuo yn ystod y cyfnod hwnnw."

3.6 Noda Adran 31(2) "*y cyfrifir 20 mlynedd yn ôl-weithredol o'r dyddiad pan ystyriwyd hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r ffordd.*"

3.7 Ategir Adran 31 gan Adran 32 Deddf Priffyrdd 1980 sy'n datgan:

"Bydd llys neu unrhyw dribiwnlys arall, cyn penderfynu p'un a yw ffordd wedi cael ei neilltuo fel priffordd ai peidio, neu ar ddyddiad pan fydd unrhyw neilltuad o'r fath, os o gwbl, yn ystyried unrhyw fap, cynllun neu hanes lleol neu unrhyw ddogfen berthnasol arall a gyflwynir fel tystiolaeth, a bydd yn rhoi pwys arno yn unol a'r hyn a ystyrir gan y llys neu'r tribiwnlys y gellir ei gyfiawnhau yn yr amgylchiadau, gan gynnwys

hynafiaeth y dogfennau a gyflwynir, statws y person a'i gwnaed, a diben y ddogfen, lle mae wedi cael ei chadw, ac o le y mae wedi cael ei chynhyrchu."

Cyfraith Gwlad

- 3.8 Dan Gyfraith Gwlad, gellir creu hawl tramwy drwy neilltuo ymhlyg a'i dderbyn. Cyfrifoldeb yr hawliwr yw profi i ddangos fod y perchennog tir, y mae'n rhaid iddo fod â'r gallu i neilltuo, wedi bwriadu neilltuo hawl tramwy cyhoeddus; neu fod y cyhoedd wedi ei ddefnyddio cyhyd ag y gellid casglu hynny, neu fod y perchennog tir yn ymwybodol o ddefnydd y cyhoedd ac wedi cydsynio i hynny. Dylai'r cyhoedd ddefnyddio'r llwybr a hawlir fel pe bai'r hawl ganddynt, fodd bynnag, nid oes cyfnod penodol o ddefnydd, ac yn ddibynnol ar ffeithiau'r achos, gall hyn amrywio o ychydig flynyddoedd i sawl degawd. Nid oes dyddiad penodol i'w ddefnyddio ar gyfer mesur defnydd yn ôl-weithredol.
- 3.9 Mae Adran 31 yn symleiddio'r rheol Cyfraith Gwlad drwy nodi bod tybiaethau penodol yn bodoli oni bai y profir y gwrthwyneb.

Materion sy'n gyfreithiol amherthnasol

- 3.10 Ni all yr Awdurdod ystyried ffactorau megis diogelwch y cyhoedd, diogelwch, dymunolrwydd, addasrwydd neu angen wrth wneud penderfyniad. Mae a wnelo'r holl broses â phennu p'un a oes hawliau tramwy cyhoeddus mewn gwirionedd yn bodoli ai peidio.

4.0 DATBLYGU TRAMFFYRDD ARTHOG (1894 - 1905)

- 4.1 Yn 1894, prynodd Solomon Andrews, gŵr busnes o Gaerdydd, dir uwchlaw aber yr afon Mawddach ac yno fe adeiladodd res o dai, Mawddach Crescent, fel rhan o brosiect i ddatblygu pentref Arthog yn ganolfan wyliau.
- 4.2 I hwyluso'r prosiect, adeiladwyd nifer o dramffyrdd, a phrif ddiben y rhain oedd cludo deunydd i adeiladu'r tai, y ffyrdd a'r morgloddiau wrth ddatblygu prosiect Arthog. Byddai rhai o'r tramffyrdd hyn hefyd yn cludo teithwyr - ymwelwyr i'r ardal oedd rhain yn bennaf.
- 4.3 Darperir map (Atodiad 2) a gymerwyd o erthygl gan hanesydd lleol, y diweddar Ifor Higgon, sy'n dangos lleoliad y tramffyrdd hyn ger Mawddach Crescent.
- 4.4 Dengys y map fod tramffordd yn bodoli i'r blaen o'r rhes (h.y. ar ochr y môr) yn ogystal ag i gefn y tai. Adeiladwyd morglawdd a elwir yn "Cob" yn 1902 a oedd yn ymestyn i'r gorllewin ar draws cilfach llanw i gysylltu i forglawdd y rheilffordd sydd ar ben deheuol Pont Abermaw. Crëwyd agoriad fel llifddor yn ochr Abermaw o'r Cob ac adeiladwyd pont drosto a oedd yn ddigon llydan i gario tram.

- 4.5 Cwblhawyd tai Mawddach Crescent oddeutu mis Medi 1902. Erbyn misoedd yr haf 1903, agorwyd gwasanaeth tram estynedig i'r cyhoedd a oedd yn rhedeg o Gyffordd Abermaw i Mawddach Crescent ac ymlaen dros y Cob i Bont Abermaw. Fodd bynnag, nid oedd y dramffordd yn gwneud elw a chredir i'r gwasanaeth ddod i ben ddiwedd yr haf yn yr un flwyddyn. Ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben, dechreuwyd ar y gwaith o godi'r tramffyrdd yn 1905¹.
- 4.6 Mae'r llwybr a hawlir yn dilyn llinell y dramffordd segur sy'n rhedeg o flaen y rhes ac sy'n mynd yn ei flaen i gyfeiriad y gorllewin dros y Cob a thuag at Bont Abermaw.

5.0 COFNODION CYNGOR SIR, CYNGOR DOSBARTH GWLEDIG A CHYNGOR PLWYF/CYMUNED

- 5.1 Mae Swyddogion wedi archwilio cofnodion Cyngor Plwyf Llangelynin (CPLI) a hefyd cofnodion Cyngor Dosbarth Gwledig Dolgellau (CDGD) a Chyngor Sir Meirionnydd (CSM). Maent hefyd wedi ymchwilio i ffeiliau a gadwyd gan yr hen Gyngor Gwynedd yn ogystal â rhai'r Cyngor Gwynedd presennol.
- 5.2 O ganlyniad i'r ymchwil hwn, daethpwyd o hyd i nifer o gyfeiriadau sy'n ymwneud â Mawddach Crescent ac mae'r rhai a ystyrir yn berthnasol i'r cais wedi'u crynhoi yn Atodiad 3.

6.0 TYSTIOLAETH I GEFNOGI'R CAIS

Tystiolaeth defnyddwyr

- 6.1 Derbyniwyd 61 Datganiad o Dystiolaeth yn cefnogi'r cais.
- 6.2 Mae'r tabl yn Atodiad 4 yn crynhoi'r defnydd a gaiff ei hawlio yn unol â'r Datganiadau. Rhoddir rhif cyfeirnod i bob defnyddiwr sy'n galluogi eu hadnabod yn yr adroddiad ei hun.
- 6.3 Roedd nifer o ddefnyddwyr wedi cyflwyno llythyrau ysgrifenedig i gefnogi eu Datganiadau. Darparir y rhain yn Atodiad 5.
- 6.4 Mae lefel y defnydd dros llwybr y cais yn amrywio rhwng 'dyddiol' a 'phob blwyddyn' ac mae'r mwyafrif yn honni eu bod yn defnyddio'r llwybr yn wythnosol neu'n fisol.
- 6.5 Mae mwyafrif y defnyddwyr yn hawlio mai llwybr troed cyhoeddus ydyw. Mae peth tystiolaeth i ddangos fod beics yn defnyddio'r llwybr.

¹ Barmouth Junction and Arthog Tramways, Ifor Higgon (1985)

Fodd bynnag, ystyrir bod y defnydd hwn yn isafol ac nad oes digon o ddefnydd nac amllder i'w neilltuo i'r perwyl hwn.

- 6.6 Mae llwybr y cais wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf er dibenion hamdden. Mae tystiolaeth y defnyddwyr hefyd yn awgrymu fod y llwybr wedi cael ei ddefnyddio fel dull o deithio rhwng Abermaw ac Arthog (e.e. defnyddwyr 1, 2, 5, 6, 9, 11, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 26, 36, 38, 40, 42, 47, 50, 51, 53, 56, 60 a 61). Y ffordd fwyaf uniongyrchol i gyflawni hyn fyddai ar hyd forglawdd "y Cob".
- 6.7 Nid yw mwyafrif y defnyddwyr sy'n cefnogi'r cais yn sôn am gael eu herio gan y perchnogion tir/preswylwyr. Mae'r rhai sy'n sôn am hyn yn nodi fod person sy'n byw yn rhif 1 wedi eu herio (Defnyddwyr 5 a 6). Mae un yn nodi'n benodol fod Mr Bath a oedd yn byw ym Mawddach Crescent rhwng 2004 a 2014 wedi ei herio (Defnyddiwr 16).
- 6.8 Mae nifer fechan o ddefnyddwyr yn dweud eu bod wedi gweld arwyddion gyda'r geiriau "*Private Rd*" (e.e. Defnyddwyr 16, 18, 19, 20, 33, 34, 42 a 48). Mae rhai'n nodi ar eu ffurflenni tystiolaeth fod arwydd wedi bodoli a oedd yn cyfeirio'r cyhoedd i gefn y tai (Defnyddwyr 4, 9, 14, 17, 18, 19, 20, 26, 34, 37, 41, 43, 46, 48, 50).
- 6.9 Mae'r cyn-breswylwyr Mr Jim Aston a Ms Lynn Walford wedi cyflwyno llythyrau sy'n awgrymu fod y cyhoedd wedi defnyddio'r llwybr yn ddirwyst. Darperir y rhain yn Atodiad 6.
- 6.10 Mae archwiliad cychwynnol o'r Datganiadau Tystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos, ar yr olwg gyntaf, fod yna dystiolaeth o'r llwybr yn cael ei ddefnyddio'n ddi-dor am gyfnod hwy nag 20 mlynedd.

Tystiolaeth arall yn cefnogi'r cais

- 6.11 Fel rhan o'r cais, cyflwynodd yr ymgeisydd adroddiad dan y teitl "*Mawddach Crescent Path – History, Gates and Signage*" (Atodiad 7) sy'n cynnwys sawl hen ffotograff o Mawddach Crescent dros y blynyddoedd. Mae cyfres o bedwar hen ffotograff yn dangos y rhes o'i hochr orllewinol. Mae ffotograff pellach yn dangos y rhes o gyfeiriad dwyreiniol.
- 6.12 Mae'r ymgeisydd hefyd wedi darparu dyfyniad o'r unfed cyhoeddiad a'r ddeg o lyfr Ward Lock, "*Barmouth and North Wales (Southern Edition)*" a gyhoeddwyd oddeutu 1936/37 sy'n disgrifio taith gerdded o Abermaw i Arthog, fel a ganlyn:-

“Walkers after crossing the [Barmouth] Bridge, turn left to a path over an embankment. A couple of hundred yards from the embankment, a terrace of red brick houses comes into view. Continue past the terrace through a gate to a second wicket gate about 120 yards on the right. Through this gate a path leads to Arthog over a level crossing.”

6.13 Mae'r ymgeisydd o'r farn fod y disgrifiad yn cyfeirio at lwybr o flaen y rhes.

6.14 Ceir cyfeiriad yn adroddiad yr ymgeisydd at Argraffiad Llawn Gogledd Cymru Ward Lock, dyddiedig 1912, fel a ganlyn:-

“After crossing the bridge, pedestrians pass over loose sand to a road on the left forming an embankment and from that to a footpath at the foot of the hill. Passing a terrace of modern villas, continue by the path, till a wicket gate on the right marks the path across marshy ground by a level crossing over the railway to a high road.”

6.15 Ym mhumed cyhoeddiad y Red Guide 'North Wales Southern Section', dyddiedig 1918/19, disgrifir y daith gerdded fel a ganlyn:-

“After crossing the bridge, pedestrians can at once go down to a road on the left forming an embankment across the sands, and from that pass to a footpath at the foot of the hill. Following the path through a wicket gate clearly indicated, the high road is reached just by Arthog village.”

6.16 Yn y cyhoeddiad hwn, nid yw'r disgrifiad yn cyfeirio'n benodol at Mawddach Crescent, fodd bynnag mae'r ymgeisydd yn honni nad oes amheuaeth fod hwn yn gyfeiriad at union yr un llwybr â'r hyn a gyfeirir ato yn y ddau gyhoeddiad arall.

7.0 Tystiolaeth sy'n dangos diffyg bwriad i neilltuo

7.1 Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd gan berchnogion tir (cyfredol a chynberchnogion) a'r rhai sydd â chysylltiadau agos â'r rhes, neu sydd wedi cael cysylltiad agos yn y gorffennol, yn dangos fod nifer o gamau wedi cael eu rhoi ar waith i atal y cyhoedd rhag defnyddio'r llwybr a hawlir. Crynhoir y dystiolaeth yn Atodiad 8.

HERIAU

7.2 Hawlir gan y perchnogion tir fod ymdrech sylweddol wedi bod i droi'r defnyddwyr yn ôl. Er enghraifft, mae'r preswyllydd presennol sydd wedi byw yno hwyaf yn datgan, wrth brynu'r eiddo yn 1982, byddai'r teulu yn mabwysiadu'r drefn o herio'r cyhoedd a oedd yn cerdded o flaen y tai. Awgryma hyn, fod hon yn drefn a oedd wedi hen sefydlu ar y pryd. Mae'n ymddangos fod y preswylwyr a symudodd i'r rhes yn fwy diweddar wedi mabwysiadu'r drefn hon o weithredu. Ceir manylion y fath weithredu yn y ddogfen yn Atodiad 8.

7.3 Honnir hefyd y byddai diweddar berchennog Fegla Fawr yn mynd ati'n weithgar i herio unrhyw un a oedd yn gwyro o'r llwybrau cyhoeddus swyddogol. Ceir tystiolaeth o hyn mewn llythyr dyddiedig 24 Hydref 2006 (Atodiad 9) gan y Cyngor mewn ymateb i gŵyn gan aelod o'r

cyhoedd ynghylch arwyddion a oedd wedi'u codi o flaen rhes Mawddach. Dywed awdur y llythyr, Mr D. Coleman (Swyddog o'r Cyngor ar y pryd, oedd a thros 30 mlynedd o brofiad o waith Hawliau Tramwy yn ardal Meirionnydd - sydd bellach wedi ymddeol), fel a ganlyn: *"The path you refer to, along with others in the vicinity, has been a contentious issue for as long as the writer can recall, with regular complaints that the landowner was challenging walkers in the vicinity"*. Ychwanegodd y Swyddog, *"it is highly unlikely that a 20 year period could be established - as required by law - during which time public rights could be said to have been established"*.

ARWYDDION

Arwydd "Private Road" ar wal frics

- 7.4 Wrth fynedfa ddwyreiniol y rhes, ceir ar hyn o bryd arwydd "Private Road" wedi'i osod ar wal frics isel wrth ymyl Blwch y Post Brenhinol. Dangosir yr arwydd - sydd i weld yn dipyn o oed - yn Atodiad 10.
- 7.5 Nid yw'n glir pryd gafodd yr arwydd hwn ei osod, na phwy a'i gosododd. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan un o'r preswylwyr presennol ac unigolyn arall sy'n cefnogi'r cais yn awgrymu fod yr arwydd yn dyddio i'r adeg pan oedd y Môr-filwyr Brenhinol yn defnyddio'r rhes ym mhedwardegau'r ganrif ddiwethaf.
- 7.6 Mae rhai o'r hawlwr yn sôn eu bod wedi gweld yr arwydd hwn. Mae Defnyddiwr 42 yn cyfeirio at *"dilapidated sign"* oedd yn cael ei anwybyddu i raddau helaeth gan bobl oedd yn pasio heibio. Mae Defnyddwyr 16, 19 a 20 hefyd yn cyfeirio at arwydd wrth ymyl y blwch post.

Arwydd "Mawddach Crescent Private Road"

- 7.7 Hawlir fod y preswylwyr wedi gosod dau arwydd metel yn datgan *"Mawddach Crescent Private Road"* yn oddeutu 1999. Mae'r ddau yno hyd heddiw - un wedi'i rwymo i giât fetel tu allan i rif 1 Mawddach Crescent, a'r llall wedi'i rwymo i bostyn metel y tu allan i rif 8. Ceir ffotograff o'r arwydd cyntaf yn Atodiad 11.

Arwydd Dim Mynediad

- 7.8 Mae dau arwydd ar hyn o bryd ar naill ochr i'r rhes sy'n dangos symbol dim mynediad a'r geiriau *"STOP - Private Property - Please use public footpath to rear of houses. Thank you"*. Dangosir yr arwydd yn Atodiad 12. Mae tystiolaeth gref i ddangos y gosodwyd yr arwydd hwn yn 2006 gan fod cyfeiriad ato mewn llythyr cwyn dyddiedig Hydref 2006 (Atodiad 13). Darperir ymateb y Cyngor i'r llythyr hwn yn Atodiad 9 a chyfeirir ato ym mharagraff 7.3.

Arwydd "PRIVATE" wedi'i baentio ar wal frics

- 7.9 Ar y wal frics ym mynedfa ddwyreiniol y rhes, mae'r gair "PRIVATE" wedi cael ei baentio â llaw mewn llythrennau gwyn mawr wrth ymyl yr arwydd "*Private Road*" y cyfeirir ato yn 7.4 uchod. Mae wedi pylu erbyn heddiw, fel y gwelir yn y ffotograff yn Atodiad 14 a gymerwyd ym mis Rhagfyr 2016. Fodd bynnag, mae ffotograff a gymerwyd yn ystod ymweliad safle oddeutu 2005/6 yn dangos fod yr union arwydd hwnnw'n glir ac yn amlwg (gweler Atodiad 15). Honnir fod yr arwydd wedi bod yn ei le ers canol/diwedd chwedegau'r ganrif ddiwethaf.
- 7.10 Mae'r ymgeisydd, Mr Huw Roberts yn dadlau fod yr arwydd sydd wedi'i baentio yn darllen "*Private Road*" ac mai bwriad yr arwydd hwn oedd atal modurwyr, yn enwedig ymwelwyr nad oeddynt yn gyfarwydd â'r ardal. Fodd bynnag, mae'r gair "*road*" yn llawer llai ac yn fwy mân na'r gair "*Private*". Eglura dau o'r gwrthwynebwyr fod y gair "*Private*" wedi cael ei baentio o dan yr arwydd metel a bod yr arwydd metel wedi cael ei osod ar ei ben.

GIATIAU

- 7.11 Ymddengys fod y preswylwyr wedi penderfynu gosod giât newydd gyferbyn a Rhif 1 Mawddach Crescent yn 1999 a grid gwartheg a giât fechan ar y pen arall, tu allan i Rif 8. Dadleuir fod y giât gyferbyn â Rhif 1 wedi cael ei chloi yn rheolaidd ers iddi gael ei gosod. Fodd bynnag, honnir iddi gael ei chloi'n barhaol ers 2016.

Defnydd gyda chaniatâd

- 7.12 Honnir gan y gwrthwynebwyr fod y defnydd a wneir o'r llwybr a hawlir drwy ganiatâd yn unig gan y byddai'r preswylwyr wedi adnabod rhai o'r defnyddwyr o ystyried fod Arthog yn gymuned fechan.

Rhybudd Cyhoeddus, "Y Dydd"

- 7.13 Mae Rhybudd Cyhoeddus gan Miss D.J. Roberts, Fegla Fawr, a ymddangosodd yn rhifyn 11.10.1957 "Y Dydd" wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor (Atodiad 16). Mae'r rhybudd yn datgan yn gyhoeddus fod y morglawdd yn cau ar unwaith oherwydd ei gyflwr peryglus. Mae'n ymddangos na wnaethpwyd gais am hawl tramwy cyhoeddus yn dilyn y weithred hon.

8.0 SYLWADAU AR Y DYSTIOLAETH

- 8.1 Mae llawer o anghysondeb yn y Datganiadau Tystiolaeth nid yn unig o ran bodolaeth y gwahanol rybuddion ond hefyd o ran pryd y'u gosodwyd. Awgryma'r dystiolaeth, ers 2006, fod chwe arwydd wedi bod ar y llwybr a hawlir, ac mae pob un yn anghyson â neilltuo'r llwybr a hawlir fel priffordd. Ymddengys fod y ddau arwydd sydd ar y wal frics o

gryn oedran. Syndod felly nad yw 11 o'r 61 defnyddiwr (Cyfeirnod Defnyddiwr: 2, 3, 6, 25, 27, 29, 32, 39, 56, 57 a 60) yn sôn am unrhyw rybuddion ar y llwybr a hawlir yn eu tystiolaeth. Datgan 13 o ddefnyddwyr eraill nad oedd unrhyw arwyddion ar y llwybr ac ni allent gofio / nid oeddynt yn ymwybodol o'r fath arwyddion (Cyfeirnod Defnyddwyr: 7, 8, 23, 24, 28, 44, 47, 52, 53, 54, 55, 58, 59).

- 8.2 Ystyrir bod dangos rhybuddion ar lwybr yn ddull effeithiol o wrthbrofi barn dybiedig fod llwybr wedi'i neilltuo. Mae is-adran 3 o adran 31 Deddf Priffyrdd 1980 yn darparu fod codi a chynnal rhybudd, yn absenoldeb prawf o fwriad i'r gwrthwyneb, yn dystiolaeth ddigonol i negyddu'r bwriad i neilltuo'r llwybr fel priffordd.
- 8.3 Cyfeiriwyd eisoes at y tri arwydd "*Private Road*" sy'n bodoli ar y llwybr a hawlir ar hyn o bryd. Yn gyfreithiol, gellid dehongli arwyddion o'r fath fel rhywbeth sy'n dangos bwriad i atal traffig cerbydol yn hytrach na cherddwyr, fel y mynna'r ymgeisydd. Fodd bynnag, os y'u darllenir mewn modd synnwyr cyffredin, yn hytrach na chyfreithiol, mae'r arwyddion yn rhoi'r argraff i unrhyw un sy'n defnyddio'r ffordd, neu'n ceisio defnyddio'r ffordd nad oes ganddynt hawl i fynd ar y tir. Yn ogystal, o ystyried fod hawl tramwy cyhoeddus wedi bodoli yng nghefn y tai, mae'n rhesymol credu fod y preswylwyr yn bwriadu atal y cyhoedd rhag cerdded heibio blaen y tai.
- 8.4 Ychwanegir at yr arwyddion "*Private Road*" gan y gair "PRIVATE" sydd wedi'i baentio â llaw mewn llythrennau sy'n droedfedd o faint ar y wal frics sy'n ffurfio'r fynedfa ddwyreiniol i'r rhes.
- 8.5 Mae'r arwydd wedi'i osod mewn lleoliad sy'n golygu nad oes modd iddo gyfeirio at ddim ond y llwybr a hawlir. Mae'r neges a gyflëir i'r defnyddiwr yn blaen - nad oes hawl i'r cyhoedd ddefnyddio'r llwybr sydd o'u blaen. Mae'r arwydd felly'n amlwg yn gwadu fod hawl tramwy cyhoeddus.
- 8.6 Prin fod yr arwydd "PRIVATE" yn weladwy erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r ffotograff sy'n meddiant y Cyngor yn dangos ei fod yn weladwy iawn yn oddeutu 2005/6. Ymhellach, mae'n debygol fod yr arwydd wedi bod yn ei le ers nifer fawr o flynyddoedd cyn y dyddiad hwn, fel yr haerir gan y gwrthwynebwyr. Mae'n syndod nad oes unrhyw un o'r defnyddwyr wedi sôn am fodolaeth yr arwydd hwn yn enwedig gan ei fod wedi'i leoli mewn safle mor amlwg wrth fynedfa'r rhes.
- 8.7 Mae tystiolaeth dda yn y llythyr dyddiedig Hydref 2006 sy'n dangos fod yr arwyddion dim mynediad wedi bod yn eu lle ers (o leiaf) y flwyddyn benodol honno (sy'n gwrthbrofi'r Datganiadau Tystiolaeth sy'n datgan fod yr arwyddion yn rhai "diweddar" e.e. Defnyddwyr 1, 4, 11, 15, 36, 48, 49 a 50). Mae'r arwyddion dim mynediad yn atgyfnerthiad clir i safiad hirdymor y perchnogion tir nad oes / oedd unrhyw fwriad i neilltuo'r llwybr i'r cyhoedd.

- 8.8 O ystyried fod arwyddion wedi cael eu gosod, mae felly'n rhesymol credu y byddai'r perchnogion tir hefyd wedi ymdrechu i herio unrhyw un a fyddai'n defnyddio'r llwybr a hawllir, fel y dengys yn Atodiad 8.
- 8.9 Mae'r dystiolaeth o gamau a weithredwyd gan y perchennog tir yn awgrymu na fyddai unrhyw ddefnydd a wneir gan y cyhoedd, ar sail tebygolrwydd, yn sefydlu hawl tramwy drwy bresgripsiwn dan adran 31 Deddf Priffyrdd 1980.
- 8.10 Wrth archwilio datganiadau'r defnyddwyr, ceir awgrym fod rhai defnyddwyr wedi cael caniatâd ac mae hyn yn cyd-fynd â honiadau'r gwrthwynebwyr. Er enghraifft, datgan Defnyddiwr 4 ei fod wedi cael mynediad i'r blaendraeth gyda chaniatâd y perchnogion tir sy'n awgrymu, eu bod, a dweud y lleiaf, yn ei adnabod. Datgan Defnyddiwr 16 y byddai cyn-breswlydd yn arfer rhoi diodydd i'w phlant. Cyfeiria Defnyddiwr 20 yn benodol at breswlydd o'r enw Mrs Malatratt fyddai hefyd yn arfer gweini diodydd. Mae'r datganiad ychwanegol gan Ddefnyddiwr 21 (a arferai fyw mewn eiddo gerllaw y rhes) yn awgrymu ei fod wedi dychwelyd i'r ardal ers hynny i ymweld â ffrindiau sy'n byw yn y rhes. Sonia Defnyddiwr 24 am gael cynnig te wrth basio "fel cyd-breswylwyr" yng nghymuned Arthog. Mae Defnyddwyr 38 a 40 yn cyfeirio at sut fyddai eu mamau yn stopio ac yn sgwrsio â chyn-breswylwyr. Mae Defnyddiwr 54 yn cyfeirio at gael ei groesawu gan deulu'r Edwards a'r preswylwyr. Yn yr un modd, mae Defnyddiwr 55 yn cyfeirio at gael ei groesawu gan y preswylwyr a oedd yn cynnwys Mrs Eales a Ms Bunn.
- 8.11 Er bod nifer o gyfeiriadau yng nghofnodion Cyngor Plwyf Llangelynin at lwybr yn rhedeg heibio Mawddach Crescent, rhaid derbyn mai'r llwybr y cyfeirir ato yw'r un sy'n pasio cefn y rhes gan mai hwn yw'r llwybr y bu i'r Cyngor Plwyf a'r Cyngor Sir ei hawlio fel llwybr cyhoeddus Rhif 25 dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Ymhellach, ymddengys y rhoddwyd sylw penodol i Lwybr Cyhoeddus Rhif 25 wrth baratoi'r Map Swyddogol gan y cyfeiriwyd y mater ddwy waith i wrandawriad lleol ar ôl derbyn gwrthwynebiadau gan y perchennog tir a'r preswylwyr. Mae penderfyniad y gwrandawriad terfynol yn 1960 yn cadarnhau penderfyniad y gwrandawriad blaenorol a gynhaliwyd yn 1955 sef y dylai'r llwybr i'w osod ar y Map redeg y tu ôl i'r tai.
- 8.12 Mae sôn yng nghofnodion y Cyngor Plwyf fod morglawdd y Cob yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac mae wedi'i restru fel 'llwybr cyhoeddus' yng nghofnodion 1935 ac 1944. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dystiolaeth bositif o hawl tramwy cyhoeddus. Efallai bod y cyfeiriadau'n adlewyrchu barn y cyngor plwyf ond nid yw hynny'n bendant ar unrhyw gyfrif. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael i ddangos pa broses a ddilynwyd wrth greu'r rhestr llwybrau, i ba raddau y craffwyd y rhestr a p'un a gynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus.

- 8.13 Y tebygolrwydd yw bod CPLI a CSM wedi dewis peidio â chynnwys morglawdd y Cob ar y Map Swyddogol ar ddechrau pumdegau'r ganrif ddiwethaf am eu bod yn teimlo nad oedd hawl tramwy cyhoeddus yn bodoli yno. Yn wir, awgryma CPLI nad yw'r llwybr o'r rhes i Bont Abermaw yn llwybr cyhoeddus yn 1957 ac mae'n cydnabod fod y morglawdd yn "breifat" yn 1967. Mae hyn i weld yn amrywiad ar y farn flaenorol.
- 8.14 Mae'r ffaith fod Miss Dorothy Roberts wedi cau (neu'n bwriadu cau) y Cob yn 1957 yn creu amheuan pellach am fodolaeth hawl tramwy cyhoeddus ar hyd y Cob.
- 8.15 Nid yw'r dyfyniadau o lyfrau Ward Lock a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn profi fod hawl tramwy cyhoeddus yn bodoli. Mewn unrhyw achos, nid yw'r dyfyniadau a ddarparwyd o'r teithlyfrau a gyhoeddwyd yn 1912 ac oddeutu 1936/7 yn datgan yn benodol p'un ai yw'r llwybr yn rhedeg o flaen neu y tu ôl i'r tai. Dan yr amgylchiadau, ni ellir rhoi llawer o bwys ar y dogfennau hyn.

9.0 YMGYNGHORIAD

- 9.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r partïon perthnasol ac roedd yr ymatebion fel a ganlyn:-
- 9.2 Cyngor Cymuned Arthog - Cefnogi'r cais (gweler atodiad 17).
- 9.3 Cadarnhaodd cangen Meirionnydd Cymdeithas y Cerddwyr nad oes ganddi unrhyw wrthwynebiad i'r llwybr gael ei gofrestru. Cadarnhaodd hefyd fod nifer o'i haelodau wedi cerdded y llwybr dros y blynyddoedd. Darparwyd y sylwadau a dderbyniwyd gan y chwe aelod gyda'r ymateb (Atodiad 18).
- 9.4 Y Cynghorydd Louise Hughes - dim ymateb

10.0 CASGLIADAU

- 10.1 Mae'r cais hwn yn dibynnu ar y camau a weithredwyd gan berchnogion y tir a dylai'r Aelodau asesu effaith y camau hyn a ph'un a ydynt yn ddigonol i atal dynodiad tybiedig rhag cael ei godi.
- 10.2 O edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael, yn cynnwys y dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais a'r dystiolaeth a gyfeirir ato yn rhan 7 o'r adroddiad hwn, ystyrir na fyddai gofynion adran 31 Deddf Priffyrdd 1980 wedi'u bodloni.
- 10.3 Mae'r swyddogion yn ystyried fod digon o gamau gweithredu gweladwy wedi bod ar ran perchnogion y tir i ddangos nad oes ganddynt fwriad i neilltuo'r llwybr honedig.

- 10.4 Mae'r swyddogion o'r farn nad yw'r dystiolaeth a ystyriwyd yn dangos, ar sail tebygolrwydd, fod hawl tramwy yn bodoli neu fod honiad rhesymol ei fod yn bodoli.
- 10.5 Cesglir felly na ddylid cofnodi'r llwybr sydd wedi'i farcio fel A-B nac A-B-C (ar y cynllun yn Atodiad 1) ar y Map a'r Datganiad Swyddogol.
- 10.6 Os caiff yr argymhelliad ei dderbyn, mae gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Arolygaeth Gynllunio.

11.0 ARGYMHELLIAD

- 11.1 Gwrthod y cais i ychwanegu llwybr cyhoeddus i Fap a Datganiad Swyddogol y Cyngor fel y dengys gan A-B ac A-B-C ar y cynllun a ddarperir yn Atodiad 1.

12.0 PAPURAU CEFNDIR

Ffeil 4/2/HT/7CC37/MawddachCrescent